# CYFARFOD Y CYNGOR 3/10/24

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Beca Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Ioan Thomas (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, Annwen Hughes, Louise Hughes, R. Medwyn Hughes, Iwan Huws, Elin Hywel, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, Linda Ann Jones, June Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Gareth Coj Parry, Nigel Pickavance, John Pughe, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Elfed P Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Peter Thomas, Menna Trenholme, Rob Triggs, Rhys Tudur, Einir Wyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams, Sasha Williams a Sian Williams.

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth), Carys Fôn Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Steffan Jones (Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Glyn Daniels, Anwen Davies, John Brynmor Hughes, Dafydd Meurig, Llio Elenid Owen, Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn a Hefin Underwood.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2024 fel rhai cywir.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

- Teulu Mandy Parry o'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol, a rhoddwyd teyrnged iddi gan Ian Jones, Pennaeth yr Adran.
- Teulu Dewi 'Pws' Morris oedd wedi ymgartrefu yn Nefyn ers rhai blynyddoedd, ac a oedd yn fwyaf adnabyddus fel actor, canwr a thynnwr coes heb ei ail, ond oedd hefyd yn fardd, awdur, cyflwynydd, cyfansoddwr ac ymgyrchydd iaith.

Nodwyd ymhellach bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Nodwyd bod sawl aelod o'r Cyngor wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar a dymunwyd iddynt adferiad llwyr a buan.

Llongyfarchwyd:-

- Pawb o Wynedd fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf yn ddiweddar, yn enwedig Eurgain Haf, Pontypridd, ond yn wreiddiol o Benisarwaun, ar ennill y Fedal Ryddiaith, a Carwyn Eckley o Benygroes ar gipio'r Gadair am awdl goffa i'w dad, Padrig Eckley, fu'n gyfreithiwr yn y Cyngor hwn cyn ei farwolaeth ddisymwth a chynamserol yn 2002.
- Cowbois Rhos Botwnnog ar ennill Albwm y Flwyddyn.
- Y Cynghorydd Louise Hughes ar ei gwobrwyo fel gwirfoddolwr y flwyddyn Llu Cadetiaid y Fyddin.
- Tîm o Wasanaeth Caffael y Cyngor a enwebwyd ar gyfer gwobr genedlaethol yn sgil eu gwaith i fynnu buddion cymdeithasol i Wynedd wrth dendro contract bwyd.
- Yr Adran Tai ac Eiddo ar gyrraedd y rhestr fer am wobr *Best Supported Housing Development: Rural/Suburban* yng ngwobrau Inside Housing Development. Nodwyd mai dyma'r ail waith i'r Adran gyrraedd y rhestr fer, ac er chafwyd llwyddiant y tro hwn, roedd yn glod eu bod wedi cyrraedd y rhestr fer o'r cannoedd o enwebiadau a dderbyniwyd.
- Grŵp celf cymunedol Cricieth Creadigol ar ddod i'r brig yng Ngwobrau Bywydau Creadigol 2024, sydd â'r nod o ddathlu a chydnabod pwysigrwydd gweithgareddau creadigol o bob math mewn cymunedau lleol.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 6. CWESTIYNAU

*(Cyhoeddwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau ymlaen llaw.)*

### (1) Cwestiwn Y Cynghorydd Angela Russell

O ystyried fod hinsawdd Cymru yn mynd yn wlypach o flwyddyn i flwyddyn, hoffwn ofyn, pa gamau mae Cyngor Gwynedd yn gymryd i uwchraddio'r lôn A499 rhwng Pwllheli a Llanbedrog. Byddai hyn yn arbed trigolion Llanbedrog, Abersoch, Botwnnog, Sarn ac Aberdaron rhag defnyddio lonydd cul heibio Cefn Llanfair a Rhydyclafdy ayyb sy'n golygu tagfeydd wrth i lorïau a bysus ddod wyneb yn wyneb ar y lonydd cul yma.

**Ateb – Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd, Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones**

Fel y gwelwch o'r ateb ysgrifenedig o'ch blaen, Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn arwain ar y Prosiect Rheoli Llifogydd yn ardal Pwllheli. Fe welwch fod gwaith ar yr A499 yn opsiwn ychwanegol sy'n cael ei gysidro, ond bod angen gwaith pellach cyn creu cynllun gwelliant i'r ffordd yna. Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau y byddwn fel Cyngor yn pwyso i gael cynllun gwella i'r ffordd yn rhan o'r prosiect, ac wrth gwrs, fe wnawn eich diweddaru chi fel mae pethau yn symud yn eu blaenau.

**(2) Cwestiwn Y Cynghorydd Huw Rowlands**

Pa ddefnydd a wneir gan Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC Cyngor Gwynedd o gontractwyr allanol, a pha fonitro sy'n digwydd er mwyn sicrhau safon, gwerth am arian a chydymffurfiaeth â'u cytundebau?

**Ateb – Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd, Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones**

Mae'n wir i ddweud bod yr Adran yn defnyddio nifer o gontractwyr i'r gwahanol feysydd gwaith rydym ni'n ymgymeryd â hwy, sy'n golygu tipyn o waith monitro gan swyddogion. Wrth symud ymlaen, rydym yn ceisio mewnoli rhai o'r contractau yma er mwyn sicrhau gwell atebolrwydd a chysondeb, a hefyd i ddatblygu sgiliau'r gweithlu mewnol a chadw'r budd yn lleol. Yn ogystal â hyn, mae llawer o'r contractau torri gwair, er enghraifft, yn dod i ben a bydd angen ail-dendro. Y gobaith yw y bydd modd creu pecynnau llai o waith fydd yn golygu y gall contractwyr mwy lleol ymdopi gyda'r gwaith, yn y gobaith y bydd hyn i gyd yn gwella'r gwasanaeth i drigolion Gwynedd.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Huw Rowlands**

A all yr Adran adrodd yn ôl wedi iddyn nhw gael cyfle i ail-ystyried sut mae pethau yn cael eu gweithredu?

**Ateb – Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd, Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones**

Yn sicr, fe wnawn ni adrodd yn ôl ar hynny. Er gwybodaeth hefyd, bydd y contractau gwair yn mynd allan i dendr ddechrau'r flwyddyn gobeithio fel y bydd yna gontractwyr newydd mewn lle erbyn y gwanwyn.

**(3) Cwestiwn Y Cynghorydd Rhys Tudur**

O ystyried sylwadau gan Swyddogion ac Aelod Cabinet y Cyngor hwn bod y drefn ar gyfer ceisiadau grantiau teithio llesol yn anffafrio ardaloedd gwledig, pa foddion y mae'r Cyngor hwn wedi eu defnyddio i bwyso ar Lywodraeth Cymru i newid y drefn, ac i ba raddau y mae'r pwyso wedi bod yn effeithiol?

**Ateb – Y Dirprwy Arweinydd, Y Cynghorydd Nia Jeffreys (yn absenoldeb yr Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig)**

Mae yna ateb ysgrifenedig wedi'i ddarparu. Rwy'n meddwl, yn anffodus, a hefyd yn onest, mai'r frawddeg bwysig ydi nad oes newid sylweddol wedi bod ym meini prawf y Rhaglen Teithio Llesol gan Lywodraeth Cymru, ac mae hynny er gwaethaf pwysau mawr gan y Cyngor yma. Mae yna ddogfennau wedi'u hategu i'r ateb ysgrifenedig. Mae yna lythyr dyddiedig y 9fed o Chwefror gan yr Arweinydd, Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, at Dr Dafydd Trystan Davies, Cadeirydd y Bwrdd Teithio Llesol. Enghraifft arall ydi'r ymateb i ymgynghoriad ar y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth yn Hydref 2022, a hefyd cyflwyniad gan swyddogion y Cyngor yma i Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Felly dyma esiamplau o'r pwysau rydym ni wedi ei roi.

Fodd bynnag, nid ydi'r sefyllfa yn ddu i gyd ac rwy'n meddwl ei bod yn werth i mi ddarllen allan y rhestr o beth sydd wedi digwydd yng Ngwynedd yn y maes yma. Wedi'u cwblhau yn barod mae:-

- Ffordd Penrhos, Bangor – Rhan 1
- Lôn Las Ogwen
- Llochesi Beics yn Ysgol Cymerau, Pwllheli
- Ysgol Godre'r Berwyn, y Bala

Mae gwaith yn mynd ymlaen i ddatblygu cynlluniau:-

- Llanrug i Gaernarfon
- Chwilog i Afonwen
- Tywyn i Aberdyfi

Mae'r rhestr yn mynd ymlaen i sôn bod y cynlluniau canlynol wedi'u cymeradwyo ar gyfer eu datblygu ymhellach, sef:-

- Llochesi Beics mewn Ysgolion
- Datblygiad Cynllun Teithio Llesol Bethel i Gaernarfon
- Datblygiad Cynllun Chwilog i Afonwen
- Gwelliannau i lwybr presennol Ysgol Llanllechid
- Datblygiad Cynllun Y Ffôr i Bwllheli
- Cyfraniad tuag at ddarpariaeth Teithio Llesol Ysgol Treferthyr, Cricieth
- Datblygiad Cynllun Ysgol Maenofferen a Ffordd Glyndŵr
- Datblygiad Cynllun Teithio Llesol Llanrug i Gaernarfon.

Mae £900,000 hefyd wedi ei sicrhau i wireddu ail wedd Cynllun Teithio Llesol Ffordd Penrhos, Bangor a dros £400,000 i gyflwyno gwelliannau y tu allan i Ysgol Treferthyr, Cricieth, a hefyd Ysgol Rhostryfan.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Rhys Tudur**

O ystyried bod y Cyngor, yn ôl yr enghreiffitiau, wedi pwyso ar y moddion sy'n ddisgwyliedig, hynny yw, drwy ymgynghoriadau â fforymau gwledig, a gan ystyried, fel 'roedd yr Aelod Cabinet yn ddweud, nad ydi'r drefn wedi newid, hynny yw, mae ardaloedd gwledig yn dal o dan anfantais yn y drefn grantiau, pa foddion newydd mae'r Cyngor yma yn mynd i'w defnyddio i bwyso ar y Llywodraeth er mwyn cael y maen i'r wal a chael mwy o degwch i ardaloedd gwledig?

**Ateb – Y Dirprwy Arweinydd, Y Cynghorydd Nia Jeffreys (yn absenoldeb yr Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig)**

Fel cyd-aelod yn ardal Eifionydd, rwy'n pregethu yn aml iawn am yr angen i sicrhau tegwch ar draws y sir, yn enwedig i ardaloedd gwledig. Diolch hefyd i'r Aelod am ei waith fel Aelod Lleol. Rwyf wedi cael y pleser o ymweld â'r Ward a mynd am dro ar hyd y Lôn Goed, gan hefyd gerdded ar y lôn o Afonwen i Chwilog. Felly rydw i'n llwyr ddeall y rhwystredigaeth a phwysigrwydd y pwnc yma. Byddaf yn cymryd pob cyfle, pob ymgynghoriad, pob cyfarfod hefo'r Gweinidog ymhob cyfarfod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i bwyso'r mater yma yn ei flaen, fel y bydd pob Aelod Cabinet arall a swyddog yn y Cyngor yma yn ei wneud hefyd rwy'n siŵr. Fel y rhan fwyaf o'r Siambr yma, byddaf hefyd yn sicr yn pwyso, yn ymdrechu ac yn ymgyrchu am Lywodraeth Plaid Cymru yng Nghaerdydd yn 2026, oherwydd dyna sut y cawn ni ddealltwriaeth go iawn o anghenion gwledig ar draws y sir yma ac ar draws Cymru gyfan. Dyna ydi'r ateb go iawn yn fy marn i - newid go iawn i lawr ym Mae Caerdydd.

**(4) Cwestiwn Y Cynghorydd Jina Gwyrfai**

Dosberthir tai cymdeithasol ar rent yng Ngwynedd trwy restr Opsiynau Tai y Cyngor mewn cydweithrediad â’r asiantaethau tai, Adra, Cynefin ayyb. Beth yw’r trefniadau i sicrhau hawliau a chyfle cyfartal i denantiaid, yn benodol ym materion cytundebol?

**Ateb – Aelod Cabinet Tai, Y Cynghorydd Craig ab Iago**

Nid oes yna lawer y gallaf ei ychwanegu i’r ymateb ysgrifenedig. Mae’n dod i lawr i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Un peth fyddwn i’n ychwanegu – rwy’n cofio ar un pwynt roedd pawb yn dweud bod y ddeddf yma yn mynd i fod yn un o’r deddfau mwyaf arloesol yn Ewrop. Yn y diwedd, doedd hi ddim, ond mae’n gam pell ymlaen o’r sefyllfa oedd yn bodoli cynt.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Jina Gwyrfai**

Wrth geisio helpu teulu sy’n wynebu decantio, daeth i’m sylw nad yw polisïau a gweithdrefnau asiantaethau tai yn unffurf o bell ffordd. Mae gwahaniaethau amlwg rhyngddynt, sy’n destun pryder. Oni ddylai’r Cyngor sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau, hynny yw, y gwaith papur i’n tenantiaid, yn unffurf i holl denantiaid Gwynedd er mwyn sicrhau tegwch i bawb.

**Ateb – Aelod Cabinet Tai, Y Cynghorydd Craig ab Iago**

I fod yn onest, roeddwn i’n meddwl eu bod yn unffurf yn barod felly byddaf yn gofyn i’r Adran edrych i mewn i hyn, ond mi fuaswn i’n dweud ein bod, fel y sector yng Ngwynedd, yn cydweithio’n agos iawn. Rwy’n cadeirio Grŵp Partneriaeth Tai Gwynedd. Mae ein swyddogion yn cwrdd â swyddogion pob cymdeithas dai yn aml iawn. Mae’r cymdeithasau tai yn cwrdd yn aml iawn. Rydym yn ceisio sicrhau bod y trigolion yn cael y profiad gorau. Mi fuaswn i’n deud ein bod ni’n llwyddo i wneud hynny ac mae’r Llywodraeth wedi ein canmol ni yng Ngwynedd yn ddiweddar, gan ddweud mai ni ydi’r gorau yng Nghymru o ran ein perthynas gyda’n cymdeithasau tai. Felly, efallai nad ydi pob dim yn berffaith, ond yn bendant, rydym ni eto yn mynd i’r cyfeiriad iawn.

**(5) Cwestiwn Y Cynghorydd Gruffydd Williams**

Yng ngoleuni cynigion papur gwyn Llywodraeth Cymru i wneud cyswllt lleol yn llai o ystyriaeth ar gyfer tai cymdeithasol, ac o gofio bod cwynion cyson ar lawr gwlad nad yw siarad Cymraeg na bod yn wreiddiedig mewn cymuned yn ystyriaeth ddigonol parthed cael blaenoriaeth i dŷ cymdeithasol yma yng Ngwynedd, sy'n gadarnle’r iaith, beth yn union yw’r ymdrechion sy’n cael eu gwneud gan y Cabinet i geisio newid y drefn flaenoriaethu hynod niweidiol yma?

**Ateb – Aelod Cabinet Tai, Y Cynghorydd Craig ab Iago**

Cefais fy mhenodi fel Aelod Cabinet Tai yn 2017, ac un o’r pethau cyntaf wnaethom ni oedd ail greu'r Polisi Gosod Tai. Cyn y newid yna roedd anghenion tai eraill yn trympio yr elfen leol, felly un o’r pethau wnaeth y Polisi Gosod Tai newydd oedd rhoi llawer mwy o bwyslais ar yr elfen leol. Rwy’n meddwl ein bod wedi llwyddo. Erbyn hyn mae 97% o’n tai cymdeithasol yn mynd i bobl leol, sy’n ardderchog yn fy marn. Mae’r papur gwyn mae’r aelod yn cyfeirio ato yn sôn am danseilio hynny. Rydym yn cytuno â llawer o bethau yn y papur gwyn, ond mae yna hefyd ynddo bethau nad ydym yn cytuno â hwy. Er mwyn gwneud rhywbeth am hynny, rydym ni’n gwneud popeth y gallwn - fedra’i ddim meddwl am unrhyw beth arall y gallem fod yn ei wneud. Rydym ni wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad. Mae’r Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, wedi ysgrifennu at y Gweinidog yn amlinellu ein pryderon ni. Mae swyddogion yr Adran Tai wedi cwrdd â swyddogion tai'r Llywodraeth. Rydw i wedi

bod mewn sawl cyfarfod gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gydag aelodau cabinet tai eraill ar draws Cymru ac yn siarad hefo Julie James AS, y cyn-weinidog Tai, ac ni allaf feddwl am unrhyw beth arall y gallem ei wneud. Nid ydym ni'n hoffi'r hyn sy'n digwydd, ond eto, hyd nes y byddwn ni'n pleidleisio dros Blaid Cymru fel Llywodraeth Cymru, nid oes yna unrhyw beth y gallwn ni wneud ynghylch hynny.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Gruffydd Williams**

O ystyried bod yna bolisi yn barod ar stad o dai ym Mhowys sydd â'r nod o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg, ac sy'n rhoi blaenoriaeth "*i ymgeiswyr gyda chysylltiad ag ardal Cyngor Tref Machynlleth ers o leiaf 10 mlynedd, yn siaradwyr Cymraeg ac mewn angen tai*" fy nghwestiwn ydi, rŵan bod Cyd-bwyllgor yr AHNE a 12 o gynghorau cymuned a thref yn Llŷn ac Eifionydd yn galw ar Gyngor Gwynedd i weithredu ar argymhellion Y Comisiwn Cymunedau Cymraeg er mwyn gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg, a bod Comisiynydd y Gymraeg wedi cadarnhau bod Cyngor Gwynedd wedi methu cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, pa bryd y bydd Cyngor Gwynedd yn dilyn arweiniad Cyngor Sir Powys ac yn sefydlu polisïau gosod tai hefo'r nod o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg?

**Ateb – Aelod Cabinet Tai, Y Cynghorydd Craig ab Iago**

Mae pob person yn y Cabinet yn blaenoriaethu'r iaith. Mi fuaswn i'n deud mai'r un peth sy'n uno pawb ohonom ydi'r iaith. Mae hynny'n wir am y grŵp yr ochr yma i'r Siambr a'r Siambr i gyd, a'r swyddogion yn y Cyngor i gyd. Rydym ni i gyd yn trio amddiffyn a hwyluso'r iaith Gymraeg. Nid wy'n siŵr at beth mae'r aelod yn cyfeirio. Nid ydym yn trafod pryd rydym yn mynd i gopïo Cyngor Sir Powys, felly nid wy'n siŵr sut y gallaf ateb fwy na'r hyn rwyf newydd ei ddweud.

**(6) Cwestiwn Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

O ystyried:

- ei bod yn ofynnol bod pob penderfyniad a wneir a phob polisi a gyflwynir gan y Cyngor hwn yn destun asesiad effaith ar y Gymraeg
- a'i bod yn dilyn o hynny bod y mesurau i reoli tai gwyliau a'r polisi gosod tai cymdeithasol, fel ei gilydd, wedi bod yn destun asesiad o'r fath
- ac (i) nad oes casglu gwybodaeth am iaith ymgeiswyr ar y rhestr aros am dai cymdeithasol a (ii) ein bod yn dal i ddisgwyl am ddata ar effaith ieithyddol y premiwm yng nghyd-destun symudiadau o dai gwyliau i brif breswylfeydd
- ac na ellir asesu na monitro effaith heb yr wybodaeth hon
- a bod pryderon dilys ar lawr gwlad ynghylch effaith y naill bolisi a'r llall ar gymunedau yn Llŷn ac Eifionydd (a Gwynedd yn ehangach, siŵr o fod)

Pa fwriad sydd i gywiro'r sefyllfa hon fel na wastreffir adnoddau yn cynhyrchu asesiadau effaith yn y meysydd hyn sydd mor ddiffygiol nes rhoi'r argraff nad ydynt ond ymarferiadau soffistigedig i ystumio a chuddio gwir effeithiau, ac effeithiau posibl, y polisïau a'r penderfyniadau dan sylw?

**Ateb – Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol, Y Cynghorydd Menna Trenholme**

Mae Cyngor Gwynedd yn gwneud popeth o fewn eu gallu i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn ein cymunedau ac yn rhoi ystyriaeth briodol i hyn wrth lunio polisïau. Rydym yn ymfalchïo ein bod wedi adolygu ein trefniadau cynnal asesiadau effaith gan gynnwys asesiadau effaith ar yr iaith Gymraeg er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda'r deddfwriaethau perthnasol ac yn rhoi sylw i nodweddion cydraddoldeb, y Gymraeg ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Datblygwyd y

trefniadau presennol gyda chydweithrediad swyddfeydd y comisiynwyr perthnasol. Byddwn yn symud i ddefnyddio fersiwn electroneg newydd yn fuan a threfnu hyfforddiant pellach i staff.

Mae yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'n rhaid hefyd (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig, sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da ac ers Ebrill 2021 rhoi sylw dyledus i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol. Gwneir yr holl asesiadau yn seiliedig ar y data sydd ar gael. Mae'r honiad eu bod yn ymarferiadau i ystumio a chuddio gwir effeithiau, ac effeithiau posibl, y polisïau a'r penderfyniadau dan sylw yn anghywir.

Byddwn yn parhau i gynnal asesiadau yn unol â'r gofyn cyfreithiol ac yn ystyried a oes cyfleoedd i ddatblygu a gwella hynny yn y dyfodol.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

O ystyried bod hwn yn gwestiwn sy'n deillio'n wreiddiol o rybudd o gynnig na gyrhaeddodd y rhaglen am resymau penodol, ac o ystyried fy mod ar ddeall y byddai'r rhybudd o gynnig, o'i droi'n gwestiwn, wedi cael ateb llawn, mae'r ateb yma yn siomedig a dweud y lleiaf, ac yn annigonol. Mae'r cwestiwn yn mynd ar ôl pwyntiau eithaf penodol ynghylch casglu data a materion trefniadaethol a pholisi. Rwy'n meddwl ei fod wedi ei osod allan yn eithaf rhesymegol fesul pwynt. Mae'n gwestiwn sy'n galw am sylwadau gan dair adran o leiaf, yr Adran Tai, yr Adran Gyllid a'r Adran Gyfreithiol, i'w ateb yn gyflawn. O ystyried hynny i gyd, oes modd i ni gael gwybod pwy ddrafftiodd yr ateb diffygiol, anghyflawn ac annigonol yma, ac mewn ymgynghoriad a phwy?

**Ateb – Y Prif Weithredwr**

Hoffwn ddweud i gychwyn nad wyf yn cytuno bod yr ateb yn ddiffygiol ac anghyflawn. Mae'n gyfuniad o wybodaeth gan sawl adran wahanol a sawl swyddog gwahanol. Os ydych chi'n dymuno mwy o wybodaeth neu drafodaeth bellach ynglŷn â'r pwnc, rwy'n hapus iawn i gael y drafodaeth yna gyda chi a mynd ar ôl yr adrannau unigol i ddarparu gwybodaeth bellach.

**7. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL A HUNANASESIAD 2023/24**

Yn absenoldeb yr Arweinydd, Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd, Y Cynghorydd Nia Jeffreys, adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo a mabwysiadu Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad 2023/24.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i holl weithwyr y Cyngor am eu gwaith dros y flwyddyn, a hynny mewn cyfnod hynod o heriol. Diolchodd hefyd i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am eu sylwadau ac i Dîm y Cabinet am eu gwaith yn arwain ar y meysydd penodol.

Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at rai meysydd blaenoriaeth yn yr adroddiad, sef:-

- Gwynedd Yfory – bron i 5,000 o blant oedran cynradd yn derbyn cinio poeth maethlon bob dydd yn yr ysgolion.

- Gwynedd Glyd – creu dros 200 o gartrefi ychwanegol ar gyfer trigolion Gwynedd.
- Gwynedd Ofalgar - y tŷ cyntaf wedi'i brynu ar gyfer y Gwasanaeth Cartrefi Bychan i Blant yn ardal Porthmadog a'r ddarpariaeth tai gofal ychwanegol ysgafn wedi'i agor ym Mhwllheli ar gyfer oedolion.
- Gwynedd Werdd – y gwaith o drawsnewid dau o safleoedd tirlenwi Gwynedd wedi arwain at arbed 74 erw yn Ffridd Rasys, Harlech a 32 erw yn Llwyn Isaf, Penygroes.

Yna cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at un stori y tu ôl i'r ystadegau gan amlygu pwysigrwydd rhoi wynebau i waith y Cyngor ac enwau i'r ystadegau, a hefyd er mwyn cydnabod llwyddiannau.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Nodwyd nad oedd y stori y tu ôl i'r ystadegau yn stori unigryw o bell ffordd a bod yr holl waith mae'r swyddogion yn ei wneud yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl Gwynedd, a hynny er gwaethaf yr argyfwng ariannol. Ategwyd diolchiadau'r Dirprwy Arweiniydd i holl staff y Cyngor.
- Diolchwyd yn arbennig i'r Timau Ardal Ni, y glanhawyr strydoedd, y staff gorfodaeth stryd, a hefyd y staff gwaredu ysbwriel am eu gwaith caled ymhob tywydd.
- Nodwyd bod ystadegau'n dangos bod 5,400 o bobl wedi gadael Gwynedd yn ystod y flwyddyn, a holwyd beth oedd y rheswm am hyn. Mewn ymateb, eglurwyd bod canran uchel iawn o'r 5,400 o ganlyniad i farwolaethau a diffyg genedigaethau, yn hytrach nag allfudo. Yn amlwg, roedd pobl ifanc yn gadael y sir hefyd, ond hyderid y byddai creu cyfleoedd gwaith, darparu tai fforddiadwy, ynghyd â nifer o'r cynlluniau eraill yng Nghynllun y Cyngor o gymorth yn hyn o beth.
- Nodwyd bod Osian Rhys, swyddog ifanc sy'n gweithio ar y Cynllun Arfor, wedi rhoi cyflwyniad ysbrydoledig mewn noson Rhwydwaith Seren yn Pontio yn ddiweddar ar fanteision dychwelyd i'r ardal hon i fyw a gweithio. Roedd bwriad i roi'r cyfle iddo roi'r cyflwyniad hwn yn ehangach gan y byddai llawer o bobl ifanc yn siŵr o uniaethu ag ef yn ei angerdd a'i ddyhead i weld pobl ifanc yn dychwelyd i Wynedd, ac roedd angen uchafu ac amlhau'r negeseuon hynny.
- Diolchwyd i'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a phawb sy'n gwthio Cynllun Safle Penrhos yn ei flaen, ond pwysleisiwyd yr angen i ddal ati i wthio i gael y maen i'r wal gan nad oes yna unrhyw welyau nyrsio yn Llŷn ar hyn o bryd.
- Nodwyd bod y rhan o'r adroddiad sy'n cyfeirio at adfywio cymunedau a chanol trefi (tudalen 16) yn nodi y lluniwyd Cynlluniau Canol Tref ar gyfer Bangor, Caernarfon a Phorthmadog, a holwyd oedd yna reswm pam nad oedd Pwllheli wedi'i gynnwys. Mewn ymateb, nodwyd bod cynllun ar gyfer Pwllheli ar y gweill mewn cydweithrediad agos gyda'r Cyngor Tref.
- Mynegwyd pryder bod cyflwyno Erthygl 4 wedi creu llawer iawn o broblemau yn Llŷn. Nodwyd mai 1,000 yn unig o'r 4,000 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad oedd o blaid cyflwyno Erthygl 4, a chwestiynwyd ai dyna sut y dylai ymgynghoriad weithio. Nodwyd bod yna nifer sylweddol iawn o dai wedi dod ar y farchnad yn Llŷn ers cyflwyno Erthygl 4, a nifer o fusnesau ar fin, neu wedi cau. Cyfeiriwyd hefyd at broblemau ehangach yn yr ardal, gan gynnwys diffyg meddygon, ambiwlansys a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mewn ymateb, nodwyd nad refferendwm oedd ymgynghoriad, ac yr edrychwyd yn ofalus iawn ar yr holl ymatebion. Nodwyd ymhellach bod sawl cyfeiriad wedi'i wneud at y data o ran effaith Erthygl 4 a'r Premiwm Treth Cyngor, ac y byddai'r adroddiad i'r Cyngor ym mis Rhagfyr ar osod Premiwm ar gyfer 2025/26 yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r effaith, ynghyd â'r gwaith ymchwil sydd wedi digwydd dros yr haf.
- Croesawyd diwyg ac iaith yr adroddiad a mynegwyd gobaith y bydd y ddogfen ar gael yn rhwydd i drigolion Gwynedd weld y gwaith da sy'n mynd rhagddo ar adeg mor heriol.

- Gan gyfeirio at dudalen 40 o'r adroddiad, nodwyd bod y cais 'Gwynedd Oed Gyfeillgar' a gyflwynwyd i Sefydliad Iechyd y Byd bellach wedi'i dderbyn gyda chanmoliaeth mawr gan y Sefydliad. Gan hynny, byddai'r gwaith yn parhau dan bartneriaeth Oed Gyfeillgar a sefydlwyd o fewn y Cyngor.
- Holwyd sut roedd y Cyngor yn penderfynu lle i brynu tai. Mewn ymateb, nodwyd na fyddai'r Cyngor yn diystyru unrhyw leoliad gan fod yr angen ymhob man a gofynnwyd i'r aelodau hysbysu'r Adran o unrhyw gyfleoedd i brynu tai yn eu hardaloedd. Er hynny, nodwyd bod rhaid i'r Cyngor fod yn hynod ofalus rhag cystadlu yn erbyn personau lleol sy'n dymuno prynu'r tai hynny hefyd.
- Nodwyd bod yna brinder tai newydd ar rent yn y pentrefi bychan a holwyd a fyddai'n bosib' i'r Cyngor adeiladu rhywfaint o dai eu hunain. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd Gwynedd yn awdurdod sy'n dal stoc tai, ac mai rôl y Cyngor o ran darparu tai rhent oedd sicrhau bod y cymdeithasau tai yn darparu gymaint o dai â phosib' a darparu gymaint â phosib' o arian i'w galluogi i wneud hynny. Er hynny, roedd y Cyngor ei hun wedi cychwyn adeiladu tai er mwyn ceisio llenwi'r bwlch yn y ddarpariaeth lle mae prynwyr tro cyntaf yn methu prynu eu tai eu hunain, a phetai'r Cyngor yn methu gwerthu'r tai hynny am ryw reswm, megis diffyg pobl leol mewn angen ac mewn sefyllfa i brynu, yna gellid ystyried gosod y tai hynny ar rent.
- Nodwyd bod ardaloedd Meirion a Dwyfor o'r sir ymysg y tlotaf yng Nghymru, os nad yn Ewrop, a bod pobl ifanc yn gorfod gadael yr ardal i chwilio am waith. Mewn ymateb, nodwyd bod y Cyngor yn hollol effro i'r angen i greu gwaith i holl bobl y sir ac yn gwneud popeth o fewn ei allu i hwyluso hynny. Er enghraifft, nodwyd bod y Rhaglen Cefnogi Pobl yn darparu cymorth i bobl sy'n byw mewn tlodi drwy wneud yn siŵr eu bod yn hawlio pob budd-dal sy'n ddyledus iddynt ac yn elwa ar bob cyfle.
- Nodwyd nad oedd yna unrhyw gynllun teithio llesol ym Meirionnydd ac y gofynnwyd am lwybr o Ddinas Mawddwy i Fallwyd ers blynyddoedd. Mewn ymateb, cyfeiriwyd at y meini prawf ar gyfer grantiau a nodwyd y rhoddid pwysau drwy'r amser i geisio sicrhau tegwch ar draws y sir.
- Nodwyd ei bod yn anodd dadansoddi'r hunanasesiad gan nad oedd yn arfarnu cynlluniau yn ôl y meysydd maent yn perthyn iddynt. Teimlid bod hynny'n ei gwneud yn anodd adnabod prif rwystrau'r Cyngor a pha gynlluniau sydd heb eu cyflawni, ayb, a gofynnwyd i'r swyddogion gymryd hynny i ystyriaeth wrth lunio adroddiad 2024/25.
- Holwyd pa fodel a ddefnyddid i fesur poblogaeth. Mewn ymateb, nodwyd y daeth Gwynedd yn 21ain allan o'r 22 o gynghorau Cymru o ran newid mewn poblogaeth y llynedd, a bod hynny wedi taro'n cyllideb refeniw ar gyfer y flwyddyn i ddod. Fel rhan o'r gwaith o geisio cyfarch y bwlch anferth o £14m sy'n wynebu'r Cyngor, edrychwyd ar y ffigurau ar gyfer y flwyddyn nesaf, a gwelwyd bod Gwynedd bellach yn 5ed allan o'r 22 cyngor sir. Nid oedd yn hysbys o ble roedd y ffigwr hwn wedi dod, ond roedd i'w groesawu gan y byddai'n golygu llai o effaith ar ein cyllidebau'r flwyddyn nesaf.
- Gan gyfeirio at nod Gwynedd Lewyrchus o greu'r amgylchiadau gorau bosib' yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, nodwyd bod menter gymunedol yn Llanuwchllyn wedi llwyddo i brynu Tafarn yr Eagles gyda nawdd o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF). Mynegwyd gwerthfawrogiad o'r arweiniad a gafwyd gan swyddogion y Cyngor drwy gydol y broses o ymgeisio am y grant, a holwyd beth oedd y rhagolygon i'r dyfodol o ran y grant yma. Mewn ymateb, nodwyd y dymunid diolch i fentrau cymunedol o'r fath gan na fyddai llawer o gynlluniau yn gallu cael eu gwireddu heb y cydweithio gyda'r trydydd sector, yn ogystal â'r bartneriaeth gyda'r swyddogion. Fodd bynnag, byddai arian y Gronfa Ffyniant Bro, y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac arian Arfor yn dod i ben yn 2025, er gwaethaf yr addewid '*not a penny less'* a roddwyd adeg Brexit, a phwysleisiwyd pwysigrwydd dwyn pob pwysau bosib' ar y 2 lywodraeth yn hyn o beth.
- Nodwyd bod llawer o waith y Cyngor yn gallu bod yn anweledig a chroesawyd y ffaith bod yr adroddiad yn dangos yr ystod o wasanaethau a ddarperir. Er

enghraifft, nodwyd bod gwaith y Tîm Awtistiaeth yn anweledig i'r mwyafrif o bobl, a diolchwyd iddynt am eu holl waith yn cefnogi plant ac oedolion sydd â diagnosis, neu'n aros am ddiagnosis, nid yn unig drwy ddarparu grwpiau penodol ar gyfer rhieni a phlant sy'n aros am ddiagnosis, neu'n bryderus am ymddygiad eu plant, ond hefyd drwy hyfforddi staff. Nodwyd hefyd y byddai'r Tîm Awtistiaeth mewnol yn darparu hyfforddiant yn fuan ar gyfer gweithwyr cymdeithasol fel bod modd iddynt gefnogi rhieni maeth, teuluoedd ac athrawon.

- Nodwyd, yn ogystal â chadw a denu pobl ifanc yn ôl i Wynedd, bod angen ystyried sut i ddenu pobl sy'n hanu o rannau eraill o Gymru i ddod i fyw i Wynedd.
- O ran y sylwadau ynglŷn â diffyg swyddi yng Ngwynedd, nodwyd bod yna lawer iawn o gyfleoedd ar gael yn y sectorau gofal, iechyd ac addysg. Nodwyd hefyd yr edrychid ymlaen at weld sefydlu Academi Gofal Gwynedd, fydd yn gyfle gwych i ddatblygu gyrfa yn y sector gofal.
- O ran y cwestiwn yn gynharach yn y drafodaeth ynglŷn â pham bod Pwllheli heb ei gynnwys ar y rhestr o drefi y lluniwyd Cynlluniau Canol Tref ar eu cyfer, awgrymwyd efallai bod tueddiad anfwriadol i weld yr hyn sydd o'n blaenau ac i anghofio am y pethau sydd ar y cyrion. Mewn ymateb, nodwyd bod Pwllheli wedi'i gynnwys yng Nghynllun 2024/25 a bod cynlluniau creu lleoedd ar gyfer Rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru yn cael eu datblygu ar hyn o bryd ym Mhwllheli.
- Awgrymwyd bod sawl cyfeiriad yn yr adroddiad at '*lluniwyd cynlluniau'*, '*cynhaliwyd gweithdai*' ayb, ond nad oedd llwyddiannau ar bapur yn argyhoeddi pobl ar lawr gwlad, er y deellid bod yna brosesau i'w dilyn ar gyfer pob datblygiad a chynllun. Mewn ymateb, nodwyd y deellid y rhwystredigaeth, ond bod yna bethau yn digwydd ar lawr gwlad sy'n gwneud gwahaniaeth.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo a mabwysiadu Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2023/24.**

**8. RHYBUDDION O GYNNIG**

(A) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Cai Larsen o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

A hithau bellach yn dynesu at flwyddyn ers i'r rhyfel yn Gaza gychwyn mae Cyngor Gwynedd yn nodi bod:

Dros 40,000 o drigolion Gaza wedi eu lladd gan luoedd diogelwch Israel - y mwyafrif llethol yn sifiliaid.
Tua 10,000 o bobl - sifiliaid yn bennaf - heb eu darganfod ond sydd bron yn sicr yn farw.
Dros 90,000 wedi eu hanafu - eto gyda'r mwyafrif yn sifiliaid.
Yn agos i 200,000 wedi marw oherwydd effeithiau anuniongyrchol ymgyrch byddin Israel.
Bod mwyafrif llethol y 2.2m o bobl sy'n byw yno wedi colli eu cartrefi, neu wedi gorfod symud o'u cartrefi.
Bod pobl sydd â'u teuluoedd yn byw yn Gaza ymysg trigolion Gwynedd.

O ystyried hyn, ac o ystyried nifer o sefyllfaoedd erchyll cyfredol eraill megis Wcráin, Yemen a Maymar, geilw'r Cyngor Llawn, fel rhan o'r broses o adolygiad blynyddol y Strategaeth Fuddsoddi, fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ychwanegu darpariaeth sydd yn cyfarch egwyddorion gwarchod iawnderau dynol a pharchu cyfraith ryngwladol.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Bod pethau wedi symud ymlaen ers iddo lunio'r cynnig o ran nifer y marwolaethau a maint y dirfod, a hefyd o ran lleoliad daearyddol y distryw, ond nad oedd am gyfeirio at yr erchyllterau hynny yn benodol gan fod y cynnig yn siarad drosto'i hun.

- Bod pobl Gwynedd wedi ymateb i'r hyn sy'n digwydd yn y Dwyrain Canol drwy gynnal gwylnosau rheolaidd yng Nghaernarfon a gwrthdystiadau mewn gwahanol lefydd yn y sir, gan gynnwys gwrthdystiad hirhoedlog ac arwrol gan fyfyrwyr ym Mangor.
- Y dymunai esbonio pam ei fod o'r farn y dylai'r Cyngor adolygu ei bolisïau a'i strategaethau buddsoddi i flaenori buddsoddiadau moesegol yng nghyd-destun Israel, ac yng nghyd-destun record hir gan arweinwyr y wlad honno o anwybyddu cyfraith ryngwladol a hawliau dynol, a gwneud hynny yn fwriadol dros gyfnod hir o amser pan nad oes yna ryfel yn mynd rhagddo.
- Bod yr ymddygiad hirdymor yma yn cynnwys:-

    - Camdriniaeth gyson a hirhoedlog o Balesteiniaid.
    - Gorddefnydd o rym.
    - Llofruddiaethau di-gyfiawnhad.
    - Amddifadu pobl o'r hawl i ymgynnull a symud yn rhydd.
    - Yr arfer o ymestyn presenoldeb Israelaidd ar lan Gorllewinol yr Iorddonen, sy'n groes i 4ydd Confensiwn Genefa, confensiwn sy'n gwahardd pwerau meddiannol rhag symud ei phoblogaeth ei hun i diroedd maent wedi eu meddiannu.
    - Cosbi torfol - hyd yn oed cyn y cyrch presennol roedd blocâd Gaza yn amddifadu trigolion Gaza o fynediad hawdd i fwyd, meddyginiaeth a chyfleoedd economaidd, oedd ynddo'i hun yn creu argyfwng dyngarol cyn i'r cyrch yma gychwyn.
    - Gwahaniaethu yn erbyn pobl o gefndir Arabaidd oddi mewn i ffiniau Israel, gwahaniaethu o ran cynrychiolaeth ddemocrataidd, cyfleoedd economaidd a mynediad i wasanaethau.
    - Y defnydd o lysoedd milwrol i erlyn sifiliaid a defnyddio system erlyn gyfochrog filwrol sy'n lleihau tryloywder, lleihau hawliau sylfaenol ac yn arwain at gyfnodau hir o garcharu di-ddyfarniad.
    - Cyfyngu ar hawliau i hunanfynegiant a chyfyngu ar hawliau mudiadau mewnol i feirniadu polisïau Israel tuag at Balesteiniaid yn fater hirhoedlog.

- Bod yr hyn sy'n digwydd yn y Dwyrain Canol ar hyn o bryd, ac sydd wedi digwydd yno ers sefydlu gwladwriaeth Israel, yn adlewyrchu canfyddiad cwbl wrthyn bod llawer mwy o werth i fywydau pobl o rai cefndiroedd crefyddol ac ethnig nag eraill.
- Ei fod yn sylweddoli nad yw'r materion y cyfeiriwyd atynt yn gyfyngedig i Israel, a byddai pasio'r cynnig yn sicrhau bod y Cyngor hwn yn edrych ar ei bolisïau er mwyn blaenori buddsoddiadau moesegol yn gyffredinol, nid yn Israel yn unig.
- Er hynny, ei fod yn cyfeirio'n benodol at Israel am ddau reswm, sef:-

    - Bod yr amgylchiadau erchyll sydd ohonynt wedi bod yn mynd ymlaen am bron i flwyddyn gyfan, ac yn lledaenu ymhellach ac ymhellach o ddiwrnod i ddiwrnod.
    - Bod perthynas y Gorllewin yn llawer agosach at Israel nag ydyw at wledydd eraill sydd â record wael iawn parthed parchu cyfraith ryngwladol a hawliau dynol. Gan fod economi Israel wedi integreiddio i sustem gyfalafol y Gorllewin roedd yna risg uwch bod buddsoddiadau o'r Cyngor yma yn gwneud eu ffordd i Israel.

- Y gofynnid i'r Cyngor gefnogi'r cynnig er mwyn datgan ein gwrthwynebiad i'r hyn sy'n digwydd yn y Dwyrain Canol heddiw, a beth sydd wedi bod yn digwydd yno dros y degawdau a hefyd er mwyn tanlinellu'r gred sy'n greiddiol i'n gwerthoedd Cymreig, sef bod gwerth cyfartal i bob enaid dynol a bod y gwerth hwnnw yn annibynnol o gefndir crefyddol, ethnig neu wladol.

Mynegodd sawl aelod gefnogaeth frwd i'r cynnig. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:-

Nodwyd mai safiad dewr myfyrwyr Prifysgol Bangor fu'n rhannol gyfrifol am ysbrydoli'r cynnig hwn. Pwysleisiwyd ei bod yn destun balchder mai gwersyll Bangor yw'r unig un drwy'r gwledydd hyn sydd wedi sefyll yn ddi-dor ers mis Mai, a diolchwyd i'r myfyrwyr am eu safiad a'u dygnwch rhyfeddol, sydd wedi tynnu ystod eang o drigolion Gwynedd a thu hwnt at ei gilydd i'w cefnogi ac i gyd-sefyll gyda hwy. Nodwyd hefyd bod croeso i bawb ddod i'r wylnos ychwanegol a drefnwyd ar nos Lun, 7 Hydref i nodi blwyddyn ers cychwyn y tywallt gwaed.

Gofynnwyd am farn y Swyddog Monitro ar faterion yn ymwneud â phriodoldeb geiriad y cynnig, sef:-

- Bod y cynnig yn rhestru ffigurau, ond oedd modd gwneud hynny heb adroddiad gerbron yn tystio i gywirdeb y ffigurau hynny?
- Bod paragraff olaf y cynnig yn nodi ein bod yn galw am ychwanegu darpariaeth sydd yn cyfarch egwyddorion gwarchod iawnderau dynol a pharchu cyfraith ryngwladol. Oedd awgrym felly nad oedd y ddarpariaeth bresennol yn unol â'r gyfraith?
- Nad oedd yma adroddiad ar y baich ar adnoddau o weithredu yn y modd yma na phriodoldeb gwneud hynny o ystyried ein bod yn ymdrin ag arian cyhoeddus.
- A oedd y Cyngor mewn sefyllfa i fuddsoddi yn unol â moesoldeb, ar wahân i'r hyn sy'n unol â threfn gyfreithiol?
- Na welid y cyswllt rhwng paragraff olaf y cynnig a'r rhagymadrodd, ac a oedd y cynnig yn cyfeirio at unrhyw wladwriaeth sydd â byddin, neu unrhyw gwmni sy'n cynhyrchu'r darnau lleiaf ar gyfer arfau milwrol, ayb?
- Ai'r ystyriaethau sylfaenol yn yr achos hwn ydi'r hyn sy'n unol â'r gyfraith fel y mae a'r hyn sy'n dod â'r buddsoddiad gorau i arian cyhoeddus?
- Nad oedd cyfeiriad yma at y goblygiadau risg i'r sefydliad, boed hynny yn gyfreithiol drwy her neu'n ariannol drwy fuddsoddiadau llai proffidiol.

Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod rhybuddion o gynnig yn mynd drwy broses o'u trefnu a'u hidlo er mwyn cael cynigion sy'n briodol.
- Bod y ffigurau yn y cynnig wedi'u rhoi ymlaen gan y cynigydd ac yn seiliedig, mae'n debyg, ar wybodaeth sy'n gyhoeddus beth bynnag. Hefyd, gofynnid i'r Cyngor '*nodi'* y ffigurau, yn hytrach na'u '*mabwysiadu'*.
- Bod geiriad y cynnig wedi'i fframio yn hynod o ofalus fel cais i '*ystyried'* y materion hyn gan gloriannu'r risgiau, priodoldeb a chyfreithlondeb ychwanegu'r ddarpariaeth a geisid wrth adolygu'r Strategaeth Fuddsoddi. Nid oedd y cynnig yn rhagdybio canlyniad yr adolygiad hwnnw.
- Mai amcan y geiriad oedd cynnal adolygiad o ran buddsoddi'n foesegol lle bynnag y bo hynny'n digwydd, ac nid oedd yn gyfyngedig i Israel nac unrhyw wlad arall.
- Na ellid dweud bod cynnig sy'n gofyn am ymchwil o'r fath yn amhriodol, yn enwedig o ystyried hefyd mai'r Cyngor llawn fydd yn mabwysiadu'r Strategaeth Fuddsoddi yn eu cyfarfod ym mis Mawrth. Byddai'r adroddiad i'r Cyngor yn cynghori ar briodoldeb, cyfreithlondeb, a hefyd risgiau'r materion hyn.

Ar bwynt o eglurder, ac mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod y cynnig yn ymwneud â Strategaeth Fuddsoddi arian y Cyngor, ac nid arian y Gronfa Bensiwn.

Holwyd sut bod yna fuddsoddiad yn Israel os oedd y Cyngor wedi ymrwymo i'r mudiad Boicotio, Dadfuddsoddi a Sancsiynau yn 2012. Mewn ymateb, eglurwyd bod y cynnig yn

gofyn am gynnwys geiriad penodol i amlygu dyhead y Cyngor ynglŷn â buddsoddi moesegol, ond bod 95% o arian y Cyngor mewn buddsoddiadau arian parod beth bynnag.

Yn ei sylwadau cloi, nododd y cynigydd:-

- Bod y cynnig yn gyfaddawd, ac oherwydd hynny bod rhywfaint o eglurder wedi'i golli. Er hynny, roedd yn gyfaddawd y bu'n hapus i'w wneud.
- Bod y Strategaeth Fuddsoddi eisoes yn cynnwys blaenoriaethau ynglŷn ag, er enghraifft, net sero a buddsoddi yn gyfrifol.
- Bod yr ymdrech i danseilio'r cynnig yn destun syndod iddo.

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar y cynnig.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y cynnig:-

| | | |
|---|---|---|
| O blaid | 48 | Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, R. Medwyn Hughes, Iwan Huws, Elin Hywel, Nia Wyn Jeffreys, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, Linda Ann Jones, June Jones, Cai Larsen, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Gareth Coj Parry, Nigel Pickavance, John Pughe, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Beca Roberts, Elfed P Roberts, Meryl Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Ioan Thomas, Peter Thomas, Menna Trenholme, Rhys Tudur, Einir Wyn Williams, Elfed Williams, Gruffydd Williams, Sasha Williams a Sian Williams. |
| Yn erbyn | 1 | Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts. |
| Atal | 5 | Y Cynghorwyr Jina Gwyrfai, Beth Lawton, Dewi Owen, John Pughe Roberts a Rob Triggs. |

Nododd y Cadeirydd fod y cynnig wedi cario.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**A hithau bellach yn dynesu at flwyddyn ers i'r rhyfel yn Gaza gychwyn mae Cyngor Gwynedd yn nodi bod:**

**Dros 40,000 o drigolion Gaza wedi eu lladd gan luoedd diogelwch Israel - y mwyafrif llethol yn sifiliaid.**
**Tua 10,000 o bobl - sifiliaid yn bennaf - heb eu darganfod ond sydd bron yn sicr yn farw.**
**Dros 90,000 wedi eu hanafu - eto gyda'r mwyafrif yn sifiliaid.**
**Yn agos i 200,000 wedi marw oherwydd effeithiau anuniongyrchol ymgyrch byddin Israel.**
**Bod mwyafrif llethol y 2.2m o bobl sy'n byw yno wedi colli eu cartrefi, neu wedi gorfod symud o'u cartrefi.**
**Bod pobl sydd â'u teuluoedd yn byw yn Gaza ymysg trigolion Gwynedd.**

**O ystyried hyn, ac o ystyried nifer o sefyllfaoedd erchyll cyfredol eraill megis Wcráin, Yemen a Maymar, geilw'r Cyngor Llawn, fel rhan o'r broses o adolygiad blynyddol y Strategaeth Fuddsoddi, fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ychwanegu darpariaeth sydd yn cyfarch egwyddorion gwarchod iawnderau dynol a pharchu cyfraith ryngwladol.**

(B) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Dewi Jones o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

1. Mae Cyngor Gwynedd yn datgan ein bod yn credu y dylai'r cyfrifoldeb dros Stad y Goron gael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Dylai unrhyw elw a gynhyrchir gan Stad y Goron, yma ar diroedd a dyfroedd Cymru, aros yng Nghymru, er budd ein trigolion a'n cymunedau. Mae cyfrifoldeb dros Stad y Goron eisoes wedi ei ddatganoli i Lywodraeth Yr Alban.
2. Mae'r Cyngor hwn hefyd yn datgan ein hanfodlonrwydd bod rheidrwydd arnom i dalu ffioedd blynyddol (ar ffurf prydlesi) er mwyn sicrhau bod trigolion Gwynedd ac ymwelwyr yn cael mynediad i wahanol safleoedd, gan gynnwys ein traethau a chyfleusterau eraill. Yn 2023, talodd Cyngor Gwynedd gyfanswm o dros £161,000 i Stad y Goron. Roedd ffioedd y prydlesi yn 2023 yn amrywio o £35 ar gyfer 'blaen draeth Bangor', i £8,500 ar gyfer 'blaen draeth Dwyfor', i £144,000 ar gyfer 'Hafan Pwllheli'. Mewn cyfnod o gyni ariannol difrifol i wasanaethau cyhoeddus, credwn ei fod yn anfoesol bod ffioedd o'r fath yn mynd tuag at gynnal y Frenhiniaeth Brydeinig ac i goffrau'r Trysorlys yn Llundain. Dylai'r arian hwn aros yng Ngwynedd er mwyn cefnogi pobl Gwynedd.
3. Rydym yn galw ar y Prif Weithredwr i drefnu i agor trafodaethau gyda Stad Y Goron ynghylch y ffioedd sy'n cael eu talu gan Gyngor Gwynedd. Byddwn yn annog y Prif Weithredwr i geisio dwyn perswâd ar Stad Y Goron i oedi anfonebu pellach nes bydd sefyllfa gyllidol y Cyngor wedi gwella. Nodwn fod elw Stad Y Goron wedi mwy na dyblu o £443 miliwn yn 2022/23 i £1.1biliwn yn 2023/24, yn yr un cyfnod mae Cyngor Gwynedd wedi gweld eu cyllideb yn cael ei dorri mewn termau real.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Mewn cyfnod o gyni ariannol difrifol, ei bod yn warth bod y Cyngor hwn yn gorfod talu nifer o brydlesi i Stad y Goron er mwyn sicrhau bod trigolion ac ymwelwyr i Wynedd yn cael mynediad i'n traethau a chyfleusterau eraill.
- Y byddai oedi unrhyw anfonebu pellach yn creu arbediad ariannol fyddai'n cyfrannu at amddiffyn gwasanaethau hanfodol sydd dan gymaint o straen ar hyn o bryd.
- Bod Cymru yn wlad sy'n gyfoethog mewn adnoddau naturiol, gyda'i thir, ei harfordir a'i moroedd yn meddu ar y potensial i bweru ein heconomi, atgyfnerthu ein cymunedau a'n cefnogi i arwain y ffordd wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, roedd yr adnoddau hyn yn cael eu rheoli gan gorff sy'n atebol i Lywodraeth San Steffan, ac nid i bobl Cymru, a'r refeniw sy'n deillio o Stad y Goron yng Nghymru yn mynd i Drysorlys y Deyrnas Gyfunol yn Llundain.
- Pe bai cyfrifoldeb am Stad y Goron yn cael ei ddatganoli, byddai'r elw a gynhyrchir o dir a môr Cymru yn aros yng Nghymru, gan ein galluogi i fuddsoddi mewn seilwaith, gwasanaethau cyhoeddus a phrosiectau cymunedol sy'n addas i'n hanghenion penodol.
- Gallai Cymru arwain y byd ym maes datblygiad ynni adnewyddadwy, yn enwedig gwynt y môr, ynni llanw a thechnolegau gwyrdd arloesol eraill, ond i wneud hynny byddem angen yr awdurdod i reoli ein hadnoddau ein hunain, gan ganolbwyntio ar gynaliadwyedd a buddion hirdymor i'n cymunedau a'n hamgylchedd.
- Bod datganoli Stad y Goron yn ymwneud â llawer mwy na dim ond pwy sy'n rheoli ein tiroedd a'n moroedd, ac roedd yn ymwneud â hyder yn ein gallu i lywodraethu ein hunain, ymddiriedaeth yn ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, a hyder y gallwn lunio economi sy'n gwasanaethu pobl Cymru.

Gofynnodd y Prif Weithredwr i'r cynigydd ystyried cryfhau'r cyfarwyddyd yn ail frawddeg trydydd paragraff y cynnig trwy addasu'r geiriad i ddarllen '*Byddwn yn annog y Prif Weithredwr i geisio dwyn perswâd ar Stad Y Goron i ~~oedi anfonebu pellach~~ <u>beidio codi rhent ar y Cyngor</u> nes bydd sefyllfa gyllidol y Cyngor wedi gwella*'.

Cydsyniodd y cynigydd i'r newid ac ni fu gwrthwynebiad i hynny o'r llawr.  Gyda'r newid, fe eiliwyd y cynnig.

Nodwyd na welid pam na allai siroedd Cymru fanteisio ar yr adnoddau sydd ganddynt a chadw'r budd yn wirioneddol leol, yn hytrach na bod yr holl arian yn mynd i Gaerdydd, a gofynnwyd i'r cynigydd ystyried diwygio brawddeg gyntaf paragraff cyntaf y cynnig i ddarllen "*Mae Cyngor Gwynedd yn datgan ein bod yn credu y dylai'r cyfrifoldeb dros Stad y Goron gael ei ddatganoli i ~~Lywodraeth Cymru~~ <u>awdurdodau lleol yng Nghymru</u>."*

Nododd y cynigydd y gallai newid o'r fath fod â goblygiadau pellgyrhaeddol i'r Cyngor, a gan nad oedd yntau na'i gyd-aelodau wedi cael cyfle i bwyso a mesur ac ystyried hynny o ddifri', gofynnodd am gefnogaeth yr aelodau i'r cynnig fel yr oedd.

Gan gyfeirio at ail frawddeg trydydd paragraff y cynnig, nodwyd bod y cyfeiriad at '*nes bydd sefyllfa gyllidol y Cyngor wedi gwella*' yn annelwig a bod angen diffiniad o hynny.  Mewn ymateb, cytunwyd ei bod yn anodd diffinio beth yw sefyllfa gyllidol well a'i bod yn anodd gweld yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni sut y gall y Cyngor fyth gyrraedd sefyllfa gyllidol well.

Nodwyd, er y llwyr gytunid y dylai Cymru reoli ei hadnoddau naturiol ei hun, na ddylid arallgyfeirio'r adnoddau hynny i ddwylo corfforaethau rhyngwladol sy'n pwyso am sero-net ac yn gwthio mwy o bobl i dlodi tanwydd.

Cynigiwyd ac eiliwyd y gwelliant canlynol i frawddeg gyntaf paragraff cyntaf y cynnig:-

"*Mae Cyngor Gwynedd yn datgan ein bod yn credu y dylai'r cyfrifoldeb dros Stad y Goron gael ei ddatganoli i ~~Lywodraeth Cymru~~ <u>awdurdodau lleol yng Nghymru</u>."*

Trafodwyd y gwelliant.

Nododd cynigydd y cynnig gwreiddiol bod yna gryn feddwl wedi mynd i mewn i'r cynnig, ond nad oedd yn gweld bod yr un lefel o feddwl wedi mynd i mewn i'r gwelliant.  Ni chredai fod cynigydd y gwelliant wedi gwneud unrhyw fath o ymchwil ar y pwnc nac wedi cyflwyno unrhyw fath o dystiolaeth, ac ar sail hynny, anogodd yr aelodau i wrthod y gwelliant a chefnogi'r cynnig gwreiddiol.

Nodwyd, er y byddai angen dadlau sut i gael budd i Wynedd maes o law, bod angen sicrhau budd i Gymru gyfan yn gyntaf fel cenedl.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant, ac fe gollodd.

Yn ei sylwadau cloi, nododd y cynigydd:-

- Bod Stad y Goron wedi gwneud elw o £443m y llynedd, gyda'r ffigwr hwnnw wedi mwy na dyblu i £1.1bn eleni, tra bod cyllidebau Cyngor Gwynedd ac awdurdodau eraill wedi'u gwasgu a gwasanaethau yn gorfod cael eu torri.
- O ran y sylw ynglŷn â datblygwyr ynni yng Nghymru, byddai datganoli Stad y Goron yn rhoi mwy o reolaeth i ni o ran pwy sy'n cael trwyddedau ynni, ac ati, ac yn dod â'r penderfyniadau yn agosach at bobl Cymru.
- O weld yr ymateb i'r cynnig hwn ar y cyfryngau cymdeithasol, roedd yn amlwg bod llawer o bobl wedi bod yn trafod Stad y Goron dros y dyddiau diwethaf.  Roedd yn bwysig bod pobl Cymru yn sylweddoli pa mor wael yw'r fargen bresennol ac roedd cyfrifoldeb arnom i frwydro dros gael bargen fwy teg ar gyfer ein trigolion.

- Bod anogaeth i awdurdodau lleol a chynghorau eraill ar draws Cymru fynd i'r un cyfeiriad â'r Cyngor hwn, ac anogid pobl Cymru i gysylltu â'u haelodau etholedig ar bob lefel yn galw arnynt i bwyso am ddatganoli Stad y Goron i Gymru.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

1. **Mae Cyngor Gwynedd yn datgan ein bod yn credu y dylai'r cyfrifoldeb dros Stad y Goron gael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Dylai unrhyw elw a gynhyrchir gan Stad y Goron, yma ar diroedd a dyfroedd Cymru, aros yng Nghymru, er budd ein trigolion a'n cymunedau. Mae cyfrifoldeb dros Stad y Goron eisoes wedi ei ddatganoli i Lywodraeth Yr Alban.**
2. **Mae'r Cyngor hwn hefyd yn datgan ein hanfodlonrwydd bod rheidrwydd arnom i dalu ffioedd blynyddol (ar ffurf prydlesi) er mwyn sicrhau bod trigolion Gwynedd ac ymwelwyr yn cael mynediad i wahanol safleoedd, gan gynnwys ein traethau a chyfleusterau eraill. Yn 2023, talodd Cyngor Gwynedd gyfanswm o dros £161,000 i Stad y Goron. Roedd ffioedd y prydlesi yn 2023 yn amrywio o £35 ar gyfer 'blaen draeth Bangor', i £8,500 ar gyfer 'blaen draeth Dwyfor', i £144,000 ar gyfer 'Hafan Pwllheli'. Mewn cyfnod o gyni ariannol difrifol i wasanaethau cyhoeddus, credwn ei fod yn anfoesol bod ffioedd o'r fath yn mynd tuag at gynnal y Frenhiniaeth Brydeinig ac i goffrau'r Trysorlys yn Llundain. Dylai'r arian hwn aros yng Ngwynedd er mwyn cefnogi pobl Gwynedd.**
3. **Rydym yn galw ar y Prif Weithredwr i drefnu i agor trafodaethau gyda Stad Y Goron ynghylch y ffioedd sy'n cael eu talu gan Gyngor Gwynedd. Byddwn yn annog y Prif Weithredwr i geisio dwyn perswâd ar Stad Y Goron i beidio codi rhent ar y Cyngor nes bydd sefyllfa gyllidol y Cyngor wedi gwella. Nodwn fod elw Stad Y Goron wedi mwy na dyblu o £443 miliwn yn 2022/23 i £1.1biliwn yn 2023/24, yn yr un cyfnod mae Cyngor Gwynedd wedi gweld eu cyllideb yn cael ei dorri mewn termau real.**

(C) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Elwyn Edwards o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

Mae Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth San Steffan i drosglwyddo'r hawl i Lywodraeth Cymru yng Nghaerdydd i ddynodi Mawrth y 1af o bob blwyddyn yn wyliau cenedlaethol swyddogol yng Nghymru gan gydnabod Dewi Sant yn Nawddsant Cymru. Fe wneir hyn gyda Seintiau Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Hefyd mae'r Cyngor yn gofyn am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i hyn (mae wedi datgan ei chefnogaeth o'r blaen) yn ogystal â holl gynghorau Sir, Tref a Bro yng Nghymru.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**Mae Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth San Steffan i drosglwyddo'r hawl i Lywodraeth Cymru yng Nghaerdydd i ddynodi Mawrth y 1af o bob blwyddyn yn wyliau cenedlaethol swyddogol yng Nghymru gan gydnabod Dewi Sant yn Nawddsant Cymru. Fe wneir hyn gyda Seintiau Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Hefyd mae'r Cyngor yn gofyn am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i hyn (mae wedi datgan ei chefnogaeth o'r blaen) yn ogystal â holl gynghorau Sir, Tref a Bro yng Nghymru.**

(D) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Meryl Roberts o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

Mae Cyngor Gwynedd yn gwrthwynebu'n llwyr doriadau haerllug a chreulon y Llywodraeth yn San Steffan i ddiddymu taliadau gwresogi cartrefi pensiynwyr Gwynedd y gaeaf hwn. Bydd y toriadau yma yn golygu bod o leiaf 85%, sef dros 20,000 o bensiynwyr Gwynedd yn colli allan ar y taliadau tanwydd. I'r perwyl hwn, rydym yn anfon gohebiaeth gre at Keir

Starmer, fel prif weinidog y Deyrnas Gyfunol, yn beirniadu ei bolisi creulon ac yn holi iddo ei wyrdroi.

Mynegodd sawl aelod gefnogaeth frwd i'r cynnig. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:-

Cyfeiriodd Pencampwr Oed Gyfeillgar y Cyngor, y Cynghorydd Dilwyn Morgan, at y gwaith sy'n mynd rhagddo o fewn y Cyngor i gefnogi pobl, megis:-

- Annog pobl sy'n gymwys i dderbyn Credyd Pensiwn i'w hawlio, a thrwy hynny dderbyn y taliad gwresogi yn awtomatig.
- Cynorthwyo pobl sydd ar y ffin o gymhwyso am Gredyd Pensiwn drwy hyrwyddo'r cymhorthdal ychwanegol sydd ar gael iddynt.
- Bwriedid sefydlu Tasglu Taliadau Gaeaf i Bensiynwyr trawsadrannol yn fuan iawn gyda'r nod o ddatblygu ymgyrch i sicrhau bod trigolion y sir yn ymwybodol o, ac yn derbyn yr hyn sy'n haeddiannol iddynt.
- Cynnal cyfres o ddigwyddiadau Byw'n Iach Byw'n Dda. Cynhelid y cyntaf o'r digwyddiadau hyn yng Nghanolfan Glaslyn, Porthmadog ar y 7fed o Hydref, lle byddai dros 20 o wahanol asiantaethau yn bresennol i roi gwybodaeth a chynorthwyo pobl i lenwi ffurflenni cais ayb. Trefnwyd digwyddiad yng Nghaernarfon ar 1 Tachwedd, gyda digwyddiadau pellach i ddilyn yn Ne'r Sir ac ardal Bangor.
- Gweithio gyda gwasanaethau'r Llywodraeth a'r Adran Gwaith a Phensiynau i benderfynu ar sut orau i gyfathrebu ag unigolion.
- Cynhaliwyd cyfarfod gyda Rhian Bowen-Davies, Y Comisiynydd Pobl Hŷn, oedd hefyd yn ategu ei phryder ynglŷn â'r bwriad i ddiddymu'r taliadau gwresogi.
- Cynhaliwyd sesiwn ym Mhorthmadog ar gyfer aelodau'r Cyngor i'w cynghori ynglŷn â ble i gyfeirio pobl sy'n dod atynt am wybodaeth. Nodwyd mai siomedig oedd y nifer a ddaeth i'r sesiwn, ond bod bwriad i drefnu sesiwn arall yn fuan.

Nodwyd, yn ôl ffigurau diweddar, nad oedd 1,977 o bobl Gwynedd yn derbyn y Credyd Pensiwn sy'n ddyledus iddynt, sef colled i Wynedd o £456,000. Fodd bynnag, ers i'r Llywodraeth wneud eu datganiad, roedd 20% o'r bobl hynny sy'n gymwys i dderbyn y Credyd Pensiwn bellach yn ei dderbyn oherwydd bod mudiadau fel Cyngor Gwynedd ac eraill wedi bod yn annog pobl i'w hawlio. Golygai hynny y byddai'r arbediad yn sgil diddymu'r taliadau gwresogi yn llai nag oedd Llywodraeth San Steffan wedi disgwyl.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**Mae Cyngor Gwynedd yn gwrthwynebu'n llwyr doriadau haerllug a chreulon y Llywodraeth yn San Steffan i ddiddymu taliadau gwresogi cartrefi pensiynwyr Gwynedd y gaeaf hwn. Bydd y toriadau yma yn golygu bod o leiaf 85%, sef dros 20,000 o bensiynwyr Gwynedd yn colli allan ar y taliadau tanwydd. I'r perwyl hwn, rydym yn anfon gohebiaeth gre at Keir Starmer, fel prif weinidog y Deyrnas Gyfunol, yn beirniadu ei bolisi creulon ac yn holi iddo ei wyrdroi.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30yp a daeth i ben am 4.40yp.

______________________________

**CADEIRYDD**